Department
of Energy &
Climate Change

6 Gorffennaf 2016

At bob parti sydd â buddiant, personau yr effeithir arnynt a phartïon eraill

Annwyl Syr/Madam,

**DEDDF TRYDAN 1989 a DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**RHEOLAU GORSAFOEDD CYNHYRCHU TRYDAN A LLINELLAU UWCHBEN (GWEITHDREFN YMCHWILIADAU) (CYMRU A LLOEGR) 2007**

**AILBENDERFYNU AR Y CAIS GAN RES UK & IRELAND LIMITED ("RES") DYDDIEDIG 27 MAWRTH 2009 AM GANIATÂD I ADEILADU A GWEITHREDU GORSAF GYNHYRCHU Â THYRBINAU GWYNT 100MW YM MHOWYS, CANOLBARTH CYMRU ("LLANBRYNMAIR")**

**AILBENDERFYNU AR Y CAIS GAN RWE NPOWER RENEWABLES LIMITED ("RWE") DYDDIEDIG 11 RHAGFYR 2008 AM GANIATÂD I ADEILADU A GWEITHREDU GORSAF GYNHYRCHU Â THYRBINAU GWYNT 130-250MW YM MHOWYS, CANOLBARTH CYMRU ("CARNEDD WEN")**

**Datganiad o faterion y gwahoddir rhagor o sylwadau ynglŷn â hwy**

Yn dilyn heriau cyfreithiol gan y Ceiswyr, sef RES ac RWE, ac yn sgil diddymu penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 7 Medi 2015 i wrthod y ceisiadau am ganiatâd cynllunio o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 i orsafoedd cynhyrchu â thyrbinau gwynt yn Llanbrynmair a Charnedd Wen ym Mhowys, Canolbarth Cymru ("y Datblygiadau arfaethedig"), mae'n rhaid bellach i'r Ysgrifennydd Gwladol ailbenderfynu ar y ceisiadau.

Yr wyf felly yn ysgrifennu yn unol â Rheol 23(1)(a) o Reolau Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan a Llinellau Uwchben (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru a Lloegr) 2007 ("Rheolau Ymchwiliadau"),[1] i nodi i chi, yn rhinwedd eich safle fel parti sydd â buddiant yn y ceisiadau uchod, y materion y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd o'r farn y dylid cynnig cyfle i gyflwyno sylwadau yn eu cylch at

[1] Ar gael yn http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090608144944/opsi.gov.uk/si/si2007/pdf/uksi_20070841_en.pdf

ddibenion ailbenderfynu ar y ceisiadau. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cymryd i ystyriaeth yr wybodaeth sydd eisoes ar gael,[2] ond byddai'n croesawu unrhyw sylwadau ychwanegol ar y materion a ganlyn:

*1. tirwedd ac effaith weledol unigol Datblygiad arfaethedig Llanbrynmair;*

*2. tirwedd ac effaith weledol unigol Datblygiad arfaethedig Carnedd Wen;*

*3. tirwedd ac effaith weledol gyfun Datblygiadau arfaethedig Llanbrynmair a Charnedd Wen ill dau;*

*4. effaith gronnol Datblygiad arfaethedig Llanbrynmair gyda ffermydd gwynt eraill yn ardal Powys sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu lle gwnaed cais am ganiatâd cynllunio (heb gynnwys Datblygiad arfaethedig Carnedd Wen);*

*5. effaith gronnol Datblygiad arfaethedig Carnedd Wen gyda ffermydd gwynt eraill yn ardal Powys sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu lle gwnaed cais am ganiatâd cynllunio (heb gynnwys Datblygiad arfaethedig Llanbrynmair);*

*6. effaith gronnol gyfun Datblygiadau arfaethedig Llanbrynmair a Charnedd Wen gyda ffermydd gwynt eraill yn ardal Powys sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu lle gwnaed cais am ganiatâd cynllunio;*

*7. i ba raddau y byddai'r mesurau arfaethedig ar gyfer lliniaru, adfer neu adsefydlu ecolegol a thynnu tyrbinau gwynt unigol (gan gynnwys, fel y bo'n gymwys, "pum tyrbin gwynt Carnedd Wen" R23, R26, R28, R29 ac R30 y cyfeirir atynt yn Adroddiad yr Arolygydd dyddiedig 8 Tachwedd 2014) yn gwneud iawn am unrhyw effeithiau andwyol ar y dirwedd a'r golygfeydd (yn unigol, yn gyfun neu'n gronnol) a gâi'r Datblygiadau arfaethedig;*

*8. pa mor ddigonol yw'r wybodaeth amgylcheddol a gynhyrchwyd i ategu'r ceisiadau am y Datblygiadau ac a oes angen gwybodaeth amgylcheddol ychwanegol neu fwy diweddar erbyn hyn; a*

*9. unrhyw faterion eraill sy'n codi ers 7 Medi 2015 y mae'r partïon sydd â buddiant yn hyn o beth o'r farn eu bod yn berthnasol i ailbenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y ceisiadau.*

[2] Mae'r dogfennau a ddarparwyd yn ystod proses yr ymchwiliad cyhoeddus ar gael i'w gweld yn http://bankssolutions.co.uk/powys/ .
Mae dogfennau'r penderfyniadau ar y ceisiadau yn y Canolbarth, gan gynnwys Adroddiad yr Arolygydd, ar gael yn https://itportal.decc.gov.uk/EIP/pages/projects/MidWalesPI.htm
ond sylwch: gan fod y penderfyniadau ynghylch y Datblygiadau arfaethedig wedi'u diddymu, nid yw'r llythyrau penderfynu ynghylch Llanbrynmair a Charnedd Wen yn berthnasol i ailbenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y ceisiadau.

**Cyflwyno Sylwadau**

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno sylwadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y materion hyn wneud hynny naill ai mewn copi caled neu drwy'r ebost **erbyn 29 Gorffennaf 2016 fan bellaf.** Byddwch cystal â chyfeirio unrhyw sylwadau at:

Energy Infrastructure Planning Team,
Department of Energy and Climate Change,
Area C 4th Floor,
3 Whitehall Place,
London SW1A 2AW

Wrth gyflwyno sylwadau ar y materion uchod, mae'n bwysig bod y partïon sydd â buddiant yn egluro pa gais am fferm wynt y cyfeirir ato (hynny yw, Llanbrynmair, Carnedd Wen neu'r ddau).

ebost: deccnic@decc.gsi.gov.uk

Yn unol â Rheol 23(1)(b) o'r Rheolau Ymchwiliadau, mae partïon sydd â buddiant hefyd yn cael cyflwyno rhagor o sylwadau yn gofyn am ailagor yr ymchwiliad cyhoeddus a gaewyd ar 30 Mai 2014. Gan hynny, dylai partïon sydd â buddiant ei gwneud yn glir yn eu sylwadau hefyd a ydyn nhw am i'r ymchwiliad cyhoeddus gael ei ailagor ac ar gyfer pa gais am fferm wynt (hynny yw, Llanbrynmair, Carnedd Wen neu'r ddau) a chynnwys unrhyw resymau ategol.

O dan yr amgylchiadau hyn, mae Rheol 23(1)(c) o'r Rheolau Ymchwiliad yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel y mae'n gweld yn dda, beri ailagor yr ymchwiliad cyhoeddus a gaewyd ar 30 Mai 2014 (gan yr un prif arolygydd ynteu un arall).

Dylai partïon sydd â buddiant nodi hefyd yn eu sylwadau a ydynt am gael fersiynau Cymraeg o benderfyniadau dilynol yr Ysgrifennydd Gwladol ar y ceisiadau.

Trefnir bod yr holl sylwadau a ddaw i law yn ystod y broses ailbenderfynu ar gael i'w harchwilio ar wefan GOV (https://www.gov.uk/guidance/consents-and-planning-applications-for-national-energy-infrastructure-projects).

Bydd cyfle arall i gyflwyno sylwadau ar y sylwadau a ddaw i law a gwybodaeth berthnasol arall yn cael ei roi i bartïon sydd â buddiant cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol naill ai: i) ailbenderfynu ar y ceisiadau ar sail y sylwadau ysgrifenedig a'r wybodaeth a ddaw i law; neu ii) penderfynu ailagor yr ymchwiliad cyhoeddus.

Yn gywir,

*Giles Scott*

**Giles Scott**
**Pennaeth Caniatadau Seilwaith Cenedlaethol a Rhwymedigaethau Glo**